

## 'FEDRWCH CHI FYW AM BYTH? 'WNEWCH CHI?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch y gynulleidfa i ddatblygu argyhoeddiad dyfnach y bydd bywyd yn y byd newydd yn fendigedig, â hapusrwydd a diddordeb ar gyfer pob un. I fod yn gymwys i dderbyn bendithion o'r fath, mae'n rhaid inni weithredu ffydd yn y ddarpariaeth bridwerthol drwy Iesu Grist a harmoneiddio'n holl fywyd â bwriad Duw

### **BYWYD—Y GORAU O'N HEIDDO** (4 mun.)

Dibynna'n holl obeithion, ein holl gynlluniau, a'n holl bleserau ar *fywyd*

Mae llawer o bethau yr hoffem eu gwneud, er mwyn y rhai a garwn, yn ogystal ag er mwyn hunan-fwynhad

Hêd amser, ymddengys bywyd mor fyr (*g70 10/8 4-6*)

Â bywyd estynedig—rhagor o amser—medrem ychwanegu'n helaeth at ein haml ddoniau a'n hapusrwydd

Rhyfedd fod bywyd dyn, ffurf uchaf bywyd daearol, yn fyrrach na rhai anifeiliaid a phlanhigion (Mth 6:26; *g88 10/8 24-5; ts 23-5*)

Pam mae'r corff dynol yn heneiddio a marw? 'Ydi hyn yn anochel?

### **GWNAETHPWYD DYN I FYW AM BYTH** (9 mun.)

Mae gwyddonwyr yn ansicr pam mae dyn yn marw (*g88 10/8 24; g90 4/22 4*)

Mae rhai bodau dynol yn byw yn eithriadol hir (*g86 8/8 31*)

Dengys y Beibl fod hyd oes gwreiddiol dyn yn ddiderfyn (Gen 2:16, 17; *g77 2/22 27-8; g90 4/22 7-8*)

Dengys tystiolaeth dealltwriaeth a phob gweithrediad yr ymennydd a phroses ryfeddol adnewyddu celloedd yr holl gorff y cynlluniwyd dyn i fyw am byth (*tp 101-2; g88 8/8 16-20*)

Golygai bywyd tragwyddol adfer dyn i berffeithrwydd ei gyflwr gwreiddiol

Casglwn, felly, inni'n amlwg gael ein cynllunio i fyw am byth, ond a yw hynny'n swnio'n ddymunol i chi?

### **'FYDDAI BYW AM BYTH MEWN PERFFEITHRWYDD DDIM YN DDIFLAS** (12 mun.)

Beth yw ystyr "perffeithrwydd"?

Cymharol, nid diamod fydd perffeithrwydd y ddynoliaeth (*it-2 606-7*)

'Oes rhaid profi drygioni er mwyn gwerthfawrogi daioni?

Lleihau mwynhau bywyd wna salwch a dioddefaint, nid ei gynyddu (*ts 144; g70 10/8 14*)

'Fyddem ni'n mynd yn brin o bethau i'w gwneud a'u dysgu? (*w83 11/15 3-7; ts 145-50; g89 2/8 27; g70 10/8 15-18*)

Byddai cyflawniadau posib' yn ddiderfyn, heb dorri arnynt gan angau

Yn bwysicaf, gallem ddod i 'nabod Duw yn well (Rhuf 11:33)

Bydd ei addoli yn barhaol ychwanegu cyfoeth a hapusrwydd at fywyd

Byddem yn mwynhau sail gobeithion hapusrwydd diderfyn wrth deithio ac astudio creadigaethau daearol

'Fedrai'r ddaear gynnwys yr holl bobl?

Gall y ddaear gynnwys poblogaeth fawr iawn (*tp 105; it-2 792 ¶7; rs 340*)

Gall gynhyrchu bywyd digonol, a bydd llywodraeth gan Dduw yn sicrhau dosbarthiad addas (Salmau 67:6; *tp 105-6; it-2 792 ¶8*)

Nid rhywbeth i ddamcaniaethu yn ei gylch yw hyn; mae Duw yn dweud wrthym beth yw ei fwriad ar gyfer y ddaear (Gen 1:27, 28)

### **SUT GELLIR CAEL BYWYD TRAGWYDDOL?** (12 mun.)

Tra bod gwyddoniaeth feddygol wedi helpu i estyn disgwyliad einioes *cyfartaleddol*, ni all sicrhau unrhyw ychwanegu sylweddol at hyd ein hoes (Lc 12:25; *g90 4/22 4; g88 10/8 23-4*)

Dywed Duw, Ffynhonnell bywyd, wrthym pam mae dyn yn marw ac mae eisoes wedi darparu'r modd inni gael meddiannu bywyd tragwyddol, sef aberth pridwerthol Iesu Grist (Helpwch y gynulleidfa i weld fod hyn yn rhesymol, realistig) (Mth 20:28; Rhuf 5:12; *w90 3/15 3-6; g70 10/8 22-3*)

Daw Crist yn "Dad Bythol" i bawb o'r rhai sy'n arfer ffydd ynddo ef a'i bridwerth (Eseia 9:6, 7; *g70 10/8 23-4; ws 162-7*)

Medrwn fod yn hyderus y bydd Iesu, ac yntau'n Frenin Teyrnas Dduw, yn dileu amodau sy'n gwneud bywyd yn drallodus ac adfer dynion ufudd sydd â ffydd i berffeithrwydd dynol (*w89 8/15 19-20; ws 170-9*)

### **'WNEWCH CHI FYW AM BYTH?** (8 mun.)

'Dydi hi ddim yn dilyn oherwydd *y gall* unigolyn fyw am byth mewn heddwch a hapusrwydd ar y ddaear y *bydd* e

Mae'n hanfodol i bob un yn bersonol ddefnyddio'r amser cyfle cyfyngedig presennol yn ddoeth

Mae cronoleg Feiblaidd a chyflawniad proffwydoliaeth Feiblaidd yn dangos fod yr amser sy'n weddill i'r drefn anghyfiawn hon yn prysur ddirwyn i ben (Mth 24; 2Tim 3:1-5; Dat 6:1-8)

Rhaid harmoneiddio'ch bywyd â Gair Duw a'i gadw felly (1In 2:15-17; *g75 1/8 28*)

Efallai i chi gychwyn ar y cwrs hwn, ond mae angen bod yn wyliadwrus er mwyn parhau (Lc 21:34-36)

Manteisiwch ar y ddarpariaeth addysg Feiblaidd a weithredir gan Dystion Jehofah sydd ar hyn o bryd yn helpu llawer o bobl i baratoi ar gyfer dyfodol diddiwedd (In 17:3; *w88* 6/15 28-9)

I'ch cryfhau eich hun i fedru cadw'r cwrs cywir, cymdeithaswch â'r rheiny sydd fel grŵp yn disgwyl byw am byth ar y ddaear (Heb 10:24, 25; *w90* 5/1 28; *g77* 4/22 15)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

Rhif 35—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD